

# GWEDDI EWCHARISTAIDD MEWN OFFEREN GYMOD I

C1

Yr Arglwydd a fo gyda chwi -  
**A chyda thithau.**

Dyrchafwn ein calonnau -  
**Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw -  
**Addas a chyfiawn ydyw.**

*Rhaglith*



Gwir addas a chyfiawn,  
ie, ein dyletswydd a'n hiachawdwriaeth yw  
bob amser ac ym mhob lle roddi diolch i ti,  
Arglwydd, sanctaidd Dad, hollalluog dragwyddol Dduw:  
am iti ein galw yn gyson i gael bywyd gennytt,  
a'i gael yn ei holl gyflawnder;  
am iti faddau inni bechaduriaid  
gan agor inni amllder dy drugaredd;  
am iti beidio â chefnu arnom,  
er i ni dro ar ôl tro grwydro oddi wrthyt ti;  
am iti dynnu'r ddynoliaeth yn nes nes atat  
mewn cwlwm annatod o gariad  
trwy dy Fab, Iesu Grist ein Harglwydd.  
Dyma'r awr i'th bobl ddychwelyd atat,  
i gael ein hadnewyddu yn dy Fab,  
i ddeffro i adeg cymod a gras;  
dyma'r awr yr wyt yn ein gwahodd  
i wasanaethu'n cyd-ddynion,  
gan agor ein calonnau i gyflawnder yr Ysbryd Glân.

Ninnau, gan hynny, rhyfeddwn mewn gorfoledd  
gyda holl gwmniâeth y nef,  
gan gyhoeddi rhinwedd dy gariad  
a'r iachawdwriaeth a ddaw inni yng Nghrist Iesu:

**Sanctaid, Sanctaid, Sanctaid,  
Arglwydd Dduw'r lluoedd.  
Mae'r nef a daear yn llawn o'th ogoniant.  
Hosanna yn y goruchaf.  
Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd.  
Hosanna yn y goruchaf.**

Annwyl Dad, cyn seilio'r byd  
ein bendithio a wnaethost yng Nghrist â phob bendith nefol,  
gan arfaethu inni fod yn sanctaid  
ac yn ddi-fai ger dy fron mewn cariad.

*Holl Offeiriad*

Edrych yn raslon ar dy bobl  
sydd wedi ymgynnull yma yn dy wŷdd,  
ac anfon yr Ysbryd Glân i sancteiddio'r rhoddion hyn,  
i'w troi er ein mwyn yn gorff ✠ a gwaed dy Fab,  
ein Harglwydd Iesu Grist,  
yr ydym trwyddo yn feibion a merched i ti.



Pan oeddem ar goll oddi wrthyt,  
ni phallodd dy gariad: anфонаist dy Fab;  
daeth yr un heb bechod yn offrwm dros bechod ar bren y groes.



Ac eto, cyn estyn ei freichiau rhwng nef a daear  
yn arwydd parhaol o'th gyfamod,  
fe fynnodd gadw gŵyl y Pasg gyda'i ddisgyblion.  
Yn ystod y swper, fe gymerodd fara,  
a chan ddiolch iti a'th fendithio,  
fe'i torrodd a'i roddi i'w ddisgyblion, gan ddweud:

**CYMERWCH, BWYTEWCH OHONO BAWB:  
HWN YW FY NGHORFF A RODDIR DROSOCH.**



Wedi bwyta, gan wybod ei fod trwy waed ei groes  
am gymodi pob peth ynddo'i hun,  
cymerodd y cwpan llawn gwin,  
a chan ddiolch iti a'th fendithio drachefn,  
fe'i rhoddodd i'w gyfeillion, gan ddweud:



**CYMERWCH, YFWCH OHONO BAWB:  
HWN YW CWPAN FY NGWAED  
O'R CYFAMOD NEWYDD A THRAGWYDDOL,  
A DYWELLTIR DROSOCH CHWI A THROS BAWB  
ER MADDEUANT PECHODAU.  
GWNEWCH HYN ER COF AMDANAF.**



Dyma ddirgelwch y Ffydd:

**1 Cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd,  
addefwn dy atgyfodiad nes i ti ddod.**

*Neu:*

**2 Bob tro y bwytawn y bara hwn ac yfed y cwpan,  
cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd, nes i ti ddod.**

*Neu:*

**3 Iachawdwr y byd, iachâ ni;  
trwy dy groes a'th atgyfodiad, yr wyt wedi ein rhyddhau.**



Gan hynny, yr ydym yn gwneud hyn  
er cof am Iesu Grist, ein Pasg a'n tangnefedd.  
Yr ydym yn coffáu ei farwolaeth a'i atgyfodiad,  
gan ddisgwyl ei ddyfodiad drachefn  
i gyflawni ein llawenydd.



Felly'r ydym yn offrymu i ti, Dad pob trugaredd,  
yr un aberth sy'n cymodi'r ddynoliaeth â thi.

Holl Off.

O Dad, edrych yn raslon  
ar y bobl a elwaist i gyfranogi o un aberth dy Fab.  
Trwy nerth yr Ysbryd Glân cyfanna bob ymraniad,  
a gwna hwy oll yn un corff.



① Cadw ni oll, galon ac ysbryd, mewn gwir gymundeb  
gyda **E.**, ein Pab, a **E.**, ein hesgob.

Cynorthwya ni i gydweithio dros dy deyrnas,  
hyd oni ddeuwn i sefyll o'r diwedd ger dy fron  
gyda'r Forwyn Fair, yr apostolion, a'th holl saint,  
yng nghwmni ein brodyr a'n chwiorydd ymadawedig,  
yr ydym yn awr yn eu cyflwyno i'th dosturi.  
Yna, yn rhydd oddi wrth bob cysgod angau,  
fe gawn ran yn y cread newydd,



gan ddiolch iti byth bythoedd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.



TRWY - DDO EF A CHYDAG EF, AC YN - DDO EF,  
Y MAE I TI, DDUW DAD HOLLALLUOG, YN UNDOD YR YS BRYD GLÂN  
BOB ANRHYDEDD A GO-GO-NI-ANT YN OES OES OEDD.

Prif off. neu bawb

Trwyddo ef, a chydag ef, ac ynddo ef,  
y mae i ti, Dduw Dad Hollalluog,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.



Amen.

R. A-men.